WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Dyddiad: 14 Mawrth 2014
Ein cyf: HVT/2103/fgb


Annwyl Darren

**ADRODDIAD DILYNOL AGIC/SAC AR WASANAETHAU IECHYD MEDDWL PLANT A'R GLASOED**

Ysgrifennaf atoch ynghylch llythyr David Sissling atoch ar 10 Mawrth, sy'n nodi ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn adroddiad dilynol AGIC/SAC ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.

Yn y llythyr, mae David yn awgrymu nad oedd adroddiad AGIC/SAC yn ddilys pan y'i cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2013, gan nad oedd yn ystyried y datblygiadau a ddigwyddodd yn ystod 2013, ers cwblhau'r gwaith maes yn 2012. Gan ddyfynnu o lythyr David:

> *'....Bydd gwelliannau pellach hefyd wedi digwydd yn ystod 2013 na chânt eu hadlewyrchu yn yr adroddiad gan fod y gwaith maes a chasglu tystiolaeth wedi digwydd yn ystod 2012. Atodaf gopi o lythyr dyddiedig 4 Hydref 2013 i AGIC/SAC mewn ymateb i'w hadroddiad drafft, a roddodd ddiweddariad ar weithgarwch hyd at y pwynt hwnnw.*

Mae'r datganiad hwn yn anghywir. Anfonwyd y llythyr dyddiedig 4 Hydref 2013 y mae David yn cyfeirio ato mewn ymateb i'n gwahoddiad i Lywodraeth Cymru wneud sylwadau ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad drafft, fel rhan o'n proses clirio adroddiadau arferol. Yn ein cais am sylwadau, gofynnwyd yn benodol i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau ers i'r gwaith maes gael ei gwblhau, a digiwyd yr adroddiad drafft yn briodol, er mwyn adlewyrchu'r datblygiadau mwy diweddar y cyfeirir atynt yn y llythyr ar 4 Hydref. Ar 15 Tachwedd, fel y swyddog cyfrifyddu perthnasol, derbyniodd David fod yr adroddiad, fel y'i cyhoeddwyd ar ôl hynny, yn gywir o ran deunydd ac wedi'i gyflwyno'n deg, heb hepgor unrhyw ffeithiau.

Rwy'n gobeithio bod hyn yn datrys unrhyw gamddealltwriaeth a allai fod wedi codi o ddarllen llythyr David Sissling dyddiedig 10 Mawrth.

Anfonaf gopi o'r llythyr hwn at Ann Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a dderbyniodd gopi o lythyr David Sissling dyddiedig 10 Mawrth hefyd.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

*cc Ms Ann Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg*